OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 414 (Cy. 134)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2021

*Gwnaed - - - - 26 Mawrth 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 5(4)(b) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2021.

**Y Diwrnod Penodedig**

**2.** Y diwrnod penodedig i'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ddod i rym (y gosodwyd copi ohono ar ffurf ddrafft gerbron Senedd Cymru ar 18 Mawrth 2021 ac a gymeradwywyd drwy benderfyniad gan Senedd Cymru ar 23 Mawrth 2021) yw 1 Medi 2021.

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

26 Mawrth 2021

(**1**) 2018 dccc 2.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Medi 2021 fel y diwrnod y daw'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ("y Cod") a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 4 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf) i rym.

Mae'r Cod yn gosod gofynion statudol ac yn cynnwys canllawiau statudol mewn perthynas â nodi a diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc o dan Ran 2 o'r Ddeddf.